# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 26 Chwefror 2024

Amser: 13.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

## Hybrid

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.00)

### 2 Sesiwn graffu gyda'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

(13.00 - 15.00) (Tudalennau 1 - 3)

Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

James Gerard, Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi Cyfiawnder, Llywodraeth Cymru

Tom Smithson, Dirprwy Gyfarwyddwr Strategaeth Economaidd a Rheoleiddio, Llywodraeth Cymru

Dylan Hughes, Prif Gwnsler Deddfwriaethol, Llywodraeth Cymru

Sicrhau Cyfiawnder i Gymru: adroddiad cynnydd 2024

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-07-24 - Papur 1 - Nodyn briffio

LJC(6)-07-24 - Papur 2 - Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 8 Chwefror 2024

LJC(6)-07-24 - Papur 3 - Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip, 22 Chwefror 2024

**Egwyl**

(15.00 - 15.05)

## 3 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

(15.05 - 15.10)

**Offerynnau’r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

**3.1 SL(6)437 – Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) (Diwygio) 2023**

(Tudalennau 4 - 10)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-07-24 - Papur 4 - Adroddiad

LJC(6)-07-24 - Papur 5 - Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 19 Chwefror 2024

LJC(6)-07-24 - Papur 6 - Llythyr at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 31 Ionawr 2024

**3.2 SL(6)441 – Gorchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Cymru) 2024**

(Tudalennau 11 - 18)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-07-24 - Papur 7 - Adroddiad

LJC(6)-07-24 - Papur 8 - Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, 22 Chwefror 2024

LJC(6)-07-24 - Papur 9 - Llythyr at y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, 7 Chwefror 2024

**3.3 SL(6)450 – Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) (Diwygio) 2024**

(Tudalennau 19 - 21)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-07-24 - Papur 10 - Adroddiad

LJC(6)-07-24 - Papur 11 - Ymateb Llywodraeth Cymru

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7 - trafodwyd eisoes

(15.10 - 15.15)

### 4.1 SL(6)452 - Casglu Deunyddiau Gwastraff ar wahân ar gyfer Ailgylchu - Cod Ymarfer Cymru

(Tudalennau 22 - 24)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-07-24 - Papur 12 - Adroddiad

LJC(6)-07-24 - Papur 13 - Ymateb Llywodraeth Cymru

## 5 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(15.15 - 15.20)

### 5.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Lloegr) a Rheolaethau Swyddogol (Amlder Gwiriadau) (Diwygio) 2024

(Tudalennau 25 - 27)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-07-24 - Papur 14 - Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 20 Chwefror 2024

### 5.2 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024

(Tudalennau 28 - 33)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-07-24 - Papur 15 - Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 20 Chwefror 2024

LJC(6)-07-24 - Papur 16 - Llythyr at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 31 Ionawr 2024

**5.3 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Ffioedd a Thaliadau) (Diwygio) 2024**

(Tudalennau 34 - 35)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-07-24 - Papur 17 - Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 21 Chwefror 2024

**5.4 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gyfiawnder**

(Tudalennau 36 - 37)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-07-24 - Papur 18 - Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 21 Chwefror 2024

## 6 Papurau i'w nodi

(15.20 - 15.25)

**6.1 Gohebiaeth gan Sam Rowlands AS at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)**

(Tudalennau 38 - 42)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-07-24 - Papur 19 - Llythyr gan Sam Rowlands AS at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Chwefror 2024

**6.2 Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Adroddiad ar weithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith 2023-24**

(Tudalen 43)

Adroddiad ar weithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith 2023-24

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-07-24 - Papur 20 - Datganiad ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 19 Chwefror 2024

**6.3 Gohebiaeth rhwng Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a Llywodraeth y DU**

(Tudalennau 44 - 48)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-07-24 - Papur 21 - Llythyr gan Lywodraeth y DU at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Chwefror 2024 [Saesneg yn unig]

LJC(6)-07-24 - Papur 22 - Llythyr gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig i Lywodraeth y DU, 13 Chwefror 2024

**6.4 Gohebiaeth gan Brif Weinidog Cymru: Y DU/Rwanda: Cytundeb ar gyfer Darparu Partneriaeth Lloches i Gryfhau Ymrwymiadau Rhyngwladol a Rennir i Ddiogelu Ffoaduriaid a Mudwyr**

(Tudalennau 49 - 52)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-07-24 - Papur 23 - Llythyr gan Brif Weinidog Cymru, 21 Chwefror 2024

LJC(6)-07-24 - Papur 24 - Llythyr at Brif Weinidog Cymru, 26 Ionawr 2024

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(15.25)

## 8 Sesiwn graffu gyda'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Trafod y dystiolaeth

(15.25 - 15.45)

## 9 Y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru): Adroddiad drafft

(15.45 - 16.30) (I ddilyn)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-07-24 - Papur 25 - Adroddiad drafft

## 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cyfiawnder Troseddol

(16.30 - 16.45) (Tudalennau 53 - 57)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-07-24 - Papur 26 - Nodyn cyngor cyfreithiol [Saesneg yn unig]

Eitem 2

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Mick Antoniw AS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

8 Chwefror 2024

Annwyl Mick,

Sesiwn Graffu Gyffredinol – 26 Chwefror 2024

Diolch am gytuno i ddod i'n cyfarfod ddydd Llun 26 Chwefror 2024 ar gyfer y sesiwn graffu gyffredinol.

Yn ogystal â'r materion y cyfeiriwyd atynt yn ein llythyr dyddiedig 13 Rhagfyr 2023, roeddem yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol eich hysbysu ein bod am edrych ar oblygiadau i Gymru yn y Papur Gorchymyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU yn ddiweddar, sef 'Safeguarding the Union'. Yn benodol, mae'n debyg y byddwn am ymdrin ag effeithiau'r cynigion ar y canlynol:

- y strwythurau cyfansoddiadol presennol a sefydlwyd i reoli aliniad ac amrywiaeth yn y DU ar ôl Brexit, megis fframweithiau cyffredin a strwythurau rhynglywodraethol diwygiedig;
- y rôl a fydd gan lywodraethau datganoledig yn y strwythurau newydd a sefydlwyd i reoli cysylltiadau rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon;
- cymhwysiad *Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020*;
- y broses ddeddfu yn y Senedd ac arfer pwerau dirprwyedig gan Weinidogion Cymru mewn meysydd datganoledig.

Yn ogystal, hoffem ddeall safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch yr amserlen ar gyfer gweithredu'r pecyn o ddiwygiadau arfaethedig ac i ba raddau y bydd unrhyw newidiadau rheoleiddiol yn berthnasol i bwerau datganoledig, llywodraethau datganoledig a chyrff cyhoeddus.



**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**

Gobeithio y bydd y wybodaeth ychwanegol hon o gymorth, ac edrychwn ymlaen at y sesiwn ar 26 Chwefror.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Cyhoeddi adroddiad cynnydd ar Sicrhau Cyfiawnder i Gymru** |
| **DYDDIAD** | **22 Chwefror 2024** |
| **GAN** | **Mick Antoniw AS, Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad a Jane Hutt AS, Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip** |

Cyhoeddwyd *Sicrhau Cyfiawnder i Gymru* ym mis Mai 2022 i dynnu sylw at y cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru a’i phartneriaid i wella'r system gyfiawnder i bobl yng Nghymru. Amlinellwyd yn y rhaglen waith y cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Cafodd y rhain eu llunio gan ystyried argymhellion y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru a Chomisiwn y Gyfraith ar gyfer diwygio cyfiawnder a thribiwnlysoedd yng Nghymru. Gosodwyd y sylfaen ar gyfer trafodaethau am ddyfodol y system gyfiawnder a thribiwnlysoedd datganoledig – trafodaethau sydd wedi parhau ers i'r rhaglen waith gael ei chyhoeddi.

Heddiw, rydym wedi cyhoeddi adroddiad cynnydd sy'n nodi'r gweithgarwch a'r datblygiadau sydd wedi digwydd ers cyhoeddi'r adroddiad. Mae'r diweddariad hwn yn cydnabod y gwaith caled sydd wedi mynd rhagddo i barhau i gyflawni'r canlyniadau cyfiawnder gorau posibl yng Nghymru, er gwaetha'r cyd-destun ariannol anodd.

Mae'r adroddiad yn dangos yr effaith gadarnhaol y mae gweithio mewn partneriaeth ar draws Llywodraeth Cymru, asiantaethau'r system gyfiawnder a gwasanaethau eraill wedi'i chael ar gyfer pobl yng Nghymru sy'n dod i gysylltiad â'r system gyfiawnder.

Mae’r adroddiad hefyd yn pwysleisio ein hymrwymiad i fynd ar drywydd datganoli cyfiawnder a phlismona yn sgil adroddiad y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru, ac mae’n rhannu’r wybodaeth ddiweddaraf am ein rhaglen waith uchelgeisiol i ddatblygu ymhellach ein dealltwriaeth o ddyfodol cyfiawnder yng Nghymru.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i ddarparu'r system gyfiawnder fwyaf effeithiol yng Nghymru o dan y setliad datganoli presennol, gan hefyd ragweld y bydd newidiadau pellach tuag at setliad sy'n diwallu anghenion pobl Cymru yn well a pharatoi ar gyfer y newidiadau hynny.

# SL(6)437 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) (Diwygio) 2023

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2023 ("y Prif Reoliadau"). Trafododd y Pwyllgor y Prif Reoliadau yn ei gyfarfod ar 25 Medi 2023. Gwnaed y Rheoliadau i gywiro gwallau o natur dechnegol, neu sy'n gysylltiedig â chonfensiwn drafftio, a nodwyd gan y Pwyllgor yn ei adroddiad ar y Prif Reoliadau.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd yr wyth pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**

Mae rheoliad 4(a) yn mewnosod diffiniad o "person awdurdodedig" yn y Prif Reoliadau. Mae testun Saesneg y diffiniad yn croesgyfeirio at bobl yn rhinwedd rheoliad **62(a) i (d)** o'r Rheoliadau Fferyllol, ond mae'r testun Cymraeg yn croesgyfeirio at bobl yn rhinwedd rheoliad **62(a) i (c)** o'r Rheoliadau Fferyllol. Nid yw'n glir pa fersiwn sy'n gywir, sy'n golygu bod y diffiniad o "person awdurdodedig" yn aneglur.

2. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae rheoliad 4(a) yn mewnosod diffiniad o "Cofrestr y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal" yn y Prif Reoliadau. Mae'r diffiniad hwn yn cyfeirio at "erthygl 5(1) o Orchymyn Proffesiynau Iechyd 2001 (cofrestru)". Dylai'r gair rhwng cromfachau ddarllen "sefydlu a chynnal cofrestr" gan mai dyma deitl erthygl 5 o Orchymyn Proffesiynau Iechyd 2001. "Cofrestru" yw teitl erthygl 9.

3. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae rheoliad 4(m)(i) yn diwygio'r diffiniad o "anghymhwysiad cenedlaethol" yn y Prif Reoliadau drwy roi'r gair "adran" yn lle "adrannau". Nid oes angen hyn gan fod geiriad y diffiniad yn dal i gyfeirio at adrannau lluosog hyd yn oed fel y'u diwygiwyd.

4. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae rheoliad 16(b)(viii) yn datgan y dylid mewnosod y cyfeiriad "(p.14)" ar ôl "Deddf Nawdd Cymdeithasol 1998" yn Atodlen 1 i'r Prif Reoliadau. Mae Deddf Nawdd Cymdeithasol 1998 yn ymddangos ddwywaith yn Atodlen 1, felly dylai rheoliad 16(b)(viii) bennu a ddylid mewnosod y cyfeiriad yn yr achlysur cyntaf neu ym mhob achlysur y mae'n digwydd.

5. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae rheoliad 16(b)(xii) yn mewnosod p. 22 fel y cyfeiriad ar gyfer Deddf Lluoedd Wrth Gefn (Diogelu Cyflogaeth) 1985. Y cyfeiriad cywir yw p. 17. Yn yr un modd, mae rheoliad 16(b)(xv) yn mewnosod p. 28 fel y cyfeiriad ar gyfer Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Y cyfeiriad cywir yw p. 14.

6. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae rheoliad 18(r) yn rhoi'r gair "is-baragraff" yn lle "baragraff" ym mharagraff 66(1) o Atodlen 3 i'r Prif Reoliadau. Fodd bynnag, mae'r gair "paragraph" yn ymddangos dair gwaith ym mharagraff 66(1) yn y fersiwn Saesneg ac nid yw'r diwygiad yn pennu ei fod ond yn gymwys i'r lle cyntaf y mae "paragraph" yn digwydd. Er bod y ddau ddefnydd arall o'r gair mewn is-baragraffau, maent yn dal i fod yn rhan o baragraff 66(1) ac felly dylid bod wedi'i gwneud yn glir bod y diwygiad ond yn gymwys i'r lle cyntaf y mae "paragraph" yn ymddangos. Byddai hyn yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd yn rheoliad 18(ff).

7. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Tynnodd pwynt adrodd 40 yn ein hadroddiad ar y Prif Reoliadau sylw at y ffaith bod Panel Addasrwydd i Ymarfer bellach yn cael ei alw'n Dribiwnlys Ymarferwyr Meddygol. Mae rheoliad 18(nn)(ii)(cc) yn diwygio paragraff 117(6)(a) o Atodlen 3 i'r Prif Reoliadau i adlewyrchu'r newid hwn. Fodd bynnag, mae'r term "Addasrwydd i Ymarfer" hefyd yn ymddangos ym mharagraff 117(6)(b) o'r Prif Reoliadau ac nid yw'r Rheoliadau yn diwygio'r geiriad hwn.

8. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae rheoliad 18(oo)(iii)(aa) yn mewnosod geiriad ym mharagraff 119(3)(v) o Atodlen 3 i'r Prif Reoliadau. Fel y'i diwygir, byddai geiriad paragraff 119(3)(v) yn darllen "mewn achos pan fo'r

contract gyda dau neu ragor o unigolion yn ymarfer mewn partneriaeth neu gyda chwmni *a phan fo un neu ragor o'r unigolion hynny wedi gwrthod cydymffurfio â chais gan y Bwrdd Iechyd Lleol i gael ei archwilio'n feddygol*, bod y Bwrdd Iechyd Lleol wedi ei fodloni bod y contractwr yn cymryd camau digonol i ddelio â'r mater" (dangosir y geiriau ychwanegol mewn testun italig). Nid yw'n glir a fwriedir i'r geiriad ychwanegol ymwneud â'r bartneriaeth, y cwmni neu'r ddau. Os mai dim ond â'r bartneriaeth y bwriedir iddo ymwneud yna dylai'r geiriad newydd fod wedi'i ychwanegu ar ôl y gair "partneriaeth" yn hytrach na "chwmni". Os bwriedir iddo ymwneud â'r cwmni neu'r bartneriaeth a'r cwmni, yna byddai angen egluro pwy yn y cwmni fyddai'n gyfystyr â'r "unigolion".

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

**9. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Yn ei hymateb i'n hadroddiad ar y Prif Reoliadau, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai'n gwneud diwygiadau i gywiro'r materion a godwyd ym mhwyntiau 8 a 54 yn ein hadroddiad. Roedd pwynt 8 yn ymwneud â chyfeiriad at ddarpariaeth a ddiddymwyd yn y diffiniad o "optometrydd-ragnodydd annibynnol" yn y Prif Reoliadau a nododd pwynt 54 gyfeiriad anghywir at Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 yn y Nodyn Esboniadol i'r Prif Reoliadau. Nid yw'r Rheoliadau yn gwneud y diwygiadau hyn.

**10. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Pwyllgor yn nodi na chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

> *Ni chynhadliwyd unrhyw ymgynghoriad ar y Rheoliadau diwygio gan nad yw'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud yn newid y polisi nac yn cael unrhyw effaith arno nac ar sut y caiff ei gymhwyso.*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i bob un o'r pwyntiau adrodd ac eithrio'r un olaf.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 22 Ionawr 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: LJC/20240219

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

19 Chwefror 2024

Annwyl Gadeirydd

Diolch am eich llythyr dyddiedig 31 Ionawr 2024. Nodwyd ei gynnwys.

Gan gyfeirio'n ôl at adroddiad y Pwyllgor, dyddiedig 15 Ionawr 2024, ar Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) (Diwygio) 2023 ("y Rheoliadau Diwygio"):

- O ran pwynt craffu technegol 1 a chan gofio statws cyfartal y ddwy iaith, fe wnaethom archwilio a allai Cofrestrydd yr OSau ystyried bod cywiro testun Cymraeg rheoliad 4(a) o'r Rheoliadau Diwygio yn fater bach ac amlwg, yng nghyd-destun diwygio pennawd cyffredinol y rheoliad.

  Yn y pen draw, mae Cofrestrydd yr OSau wedi penderfynu nad yw'n fater sy'n addas ar gyfer slip cywiro, ac felly ymdrinnir â hyn yn hytrach drwy ddarpariaeth ddiwygio pan ddaw'r cyfle.

- O ran pwynt craffu ar rinweddau 9, roedd y cais am slip cywiro yn ymwneud â'r rheoliadau gwreiddiol: Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2023 (2023/953).

  Y mater cyntaf oedd cywiro'r Nodyn Esboniadol er mwyn ei gwneud yn glir bod y cyfeiriad at "y Ddeddf" yn gyfeiriad at Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Roeddem o'r farn bod hepgor "(Cymru)" yn wall bach ac amlwg (gan nad oes cyfeiriad mewn man arall at Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 yn yr offeryn ac mae'n amlwg bod y rheoliadau'n cael eu gwneud o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006; ymhellach, diffinnir "y Ddeddf" fel "Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006" yn y ddarpariaeth ddehongli (rheoliad 2) o'r rheoliadau).

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Roedd yr ail fater yn ymwneud â mewnosod troednodyn yn rheoliad 3(1) i egluro cymhwysedd darpariaeth arbed yn Rheoliadau Cymwysterau Ewropeaidd (Y Proffesiynau Iechyd a Gofal Cymdeithasol) (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019. Nid yw'n bosibl mewnosod troednodiadau drwy offeryn diwygio, ond er hynny roeddem o'r farn mai diwygiad bach ac amlwg i'r rheoliadau gwreiddiol fyddai hyn, ac felly ei fod yn addas ar gyfer slip cywiro.

Rydym wedi cael cadarnhad gan Gofrestrydd yr OSau y gellir ymdrin â'r ddwy agwedd yn y ffordd hon ac y bydd slip cywiro nawr yn cael ei geisio.

Mewn achosion pan fo'r llywodraeth yn cytuno y dylid diwygio, mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi nodi mewn gohebiaeth flaenorol i'r Pwyllgor yr arfer a ddilynir mewn perthynas â defnyddio slipiau cywiro. Mae'r Cwnsler Cyffredinol hefyd wedi hysbysu'r Pwyllgor am ei farn mai diben yr arfer hon yw helpu i sicrhau nad yw gwallau technegol bach iawn yn broblem i ddarllenwyr deddfwriaeth. Yn y pen draw, mater i Gofrestrydd yr OSau yw pa mor addas yw diwygio mater drwy slip cywiro, a phan nad yw hynny'n opsiwn, ar ôl gwirio gyda'r Cofrestrydd, caiff llwybrau diwygio eraill eu hystyried fel yn achos pwynt craffu technegol 1.

Yn gywir



**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Eluned Morgan AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

31 Ionawr 2024

Annwyl Eluned,

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) (Diwygio) 2023

Yn ein cyfarfod ar 22 Ionawr 2024, gwnaethom drafod Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) (Diwygio) 2023 (y Rheoliadau diwygio).

Byddwch yn ymwybodol ein bod wedi trafod Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2023 ("y Prif Reoliadau") ar 25 Medi 2023. Gwnaed y Rheoliadau diwygio i gywiro gwallau o natur dechnegol, a nodwyd gennym yn ein hadroddiad ar y Prif Reoliadau.

Roedd ein hadroddiad ar y Rheoliadau diwygio yn cynnwys wyth pwynt technegol a dau bwynt adrodd o ran rhinweddau; roedd saith o'r pwyntiau adrodd technegol yn tynnu sylw at faterion lle'r oeddem o'r farn bod drafftio'r is-ddeddfwriaeth yn ymddangos yn ddiffygiol, neu ei bod yn methu â bodloni gofynion statudol. Yn ogystal, mae pwynt adrodd 9 (y cyntaf o'n pwyntiau rhinweddau) yn tynnu sylw at y ffaith nad yw dau fater a godwyd gennym yn ein hadroddiad ar y Prif Reoliadau wedi'u cywiro yn y Rheoliadau diwygio ac felly mae'r gwallau yn parhau i fod yn y gyfraith.

Yn ein cyfarfod ar 29 Ionawr 2024, gwnaethom ystyried ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad ar y Rheoliadau diwygio.

Mewn ymateb i bedwar o'r pwyntiau adrodd, dywedwyd wrthym y bydd Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Prif Reoliadau ymhellach pan fydd y cyfle'n codi. Efallai y byddwch yn gwerthfawrogi pryder fy Mhwyllgor fod hon yn sefyllfa lai na delfrydol, o gofio bod angen y Rheoliadau diwygio hyn i gywiro gwallau yn y Prif Reoliadau, ac erbyn hyn mae angen rheoliadau diwygio pellach cyn y bydd y gyfraith yn glir.

Ar ben hynny, mewn ymateb i ddau o'n pwyntiau adrodd, dywedwyd wrthym fod Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â Chofrestrydd yr OSau ynghylch y posibilrwydd o ddatrys y materion drwy slip cywiro.

O ystyried ein bod wedi cael ein cynghori yn y gorffennol gan y Cwnsler Cyffredinol y byddai slipiau cywiro yn cael eu defnyddio i fynd i'r afael â gwallau bach a/neu amlwg a lle byddai testun a lleoliad y cywiriadau yr un mor fach ac amlwg, byddem yn croesawu eglurhad ynghylch sut y gallai'r materion a nodwyd ym mhwyntiau adrodd 1 a 9 fodloni'r meini prawf hyn.

Byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn ysgrifennu at fy Mhwyllgor ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau a gynhaliwyd gyda Chofrestrydd yr OSau, a hefyd yn cadarnhau pa faterion a nodwyd yn ein hadroddiad ar y Rheoliadau diwygiedig a fydd yn cael sylw drwy slip cywiro ac a fydd angen aros i'r rheoliadau diwygio pellach gael eu gwneud.

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ateb erbyn dydd Mercher 14 Chwefror 2024.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

# SL(6)441 – Gorchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Cymru) 2024

## Cefndir a diben

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Atodlen 2 i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 (sy'n nodi Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru)) ac Atodlen 1 i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 (sy'n nodi Cynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân (Cymru)) i estyn y cyfnod y mae gan bersonau a gyflogid yng Nghymru fel diffoddwyr tân wrth gefn fynediad i gynllun pensiwn ynddo.

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn diwygio Gorchymyn Cynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 i ganiatáu gwneud dyfarndaliadau mewn perthynas ag anaf a gafwyd tra bo person yn cyflawni dyletswyddau penodol heblaw ymladd tân o dan gyflogaeth eilaidd dros dro gyda'r un awdurdod tân ac achub. Yn yr achosion hynny, bydd unrhyw anaf yn cael ei drin fel pe bai yn anaf a gafwyd o dan brif gyflogaeth y person, ac o ganlyniad bydd dyfarndaliad yn seiliedig ar wasanaeth a thâl o dan y brif gyflogaeth honno. Mae'r diwygiadau hefyd yn darparu, pan fo person yn cyflawni dyletswyddau o dan gyflogaeth eilaidd wrth gefn gyda'r un awdurdod tân ac achub, y caiff unrhyw anaf ei drin fel pe bai'n anaf a gafwyd o dan gyflogaeth reolaidd y person. Ystyr hwn yw y bydd dyfarndaliad yn seiliedig ar wasanaeth a thâl y person o dan y contract gwasanaeth rheolaidd hwnnw.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Gorchymyn hwn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Gorchymyn o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'i gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y 6 phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn:

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**

Yn erthygl 3(1) o'r Gorchymyn, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg o ran y cyfeiriad at bennawd Atodlen 2 i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992.

Mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at *"the Firefighters' Pension Scheme*", ac mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at *"Cynllun Pensiwn y Dynion Tân **1992**"* (pwyslais wedi'i ychwanegu).

**2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn, ym mharagraff 1(2)(a), disgrifir y diffiniadau newydd fel rhai sydd wedi'u mewnosod *"yn y lle priodol"* yn rheol 2(1) o Gynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân (Cymru). Fodd bynnag, yn y testun Cymraeg, nid yw'r diffiniadau wedi'u rhestru yn nhrefn yr wyddor. Dylai'r ail ddiffiniad *"cyfnod cyflogaeth arbennig"* ymddangos cyn y diffiniad cyntaf *"cyfnod cyfyngedig estynedig"*.

Gallai hyn ddrysu'r cyfarwyddyd i fewnosod y diffiniadau yn y lle priodol yn rheol 2(1) o Gynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân (Cymru) yn y testun Cymraeg.

**3. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**

Yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn, ym mharagraff 6(3), yn y rheol 5C(7) newydd, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg.

Yn y testun Saesneg, dywed "*Where the authority **do not** hold records of that person's pay for that period…"* (pwyslais wedi'i ychwanegu). Fodd bynnag, yn y testun Cymraeg cyfatebol, cyfieithir y geiriau hynny fel *"Pan **oes** gan yr awdurdod gofnodion o dâl y person hwnnw am y cyfnod hwnnw…"* (pwyslais wedi'i ychwanegu). Mae hyn yn golygu bod gan destun y ddwy iaith ystyr gyferbyniol ac maent yn gwrth-ddweud ei gilydd.

**4. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn, ym mharagraff 6(3), yn y rheol 5C(8) newydd, cyfeirir at *"diffoddwr tân **cymwys** rheolaidd amser-cyflawn"* (pwyslais wedi'i ychwanegu). Dyma'r unig achlysur y defnyddir *"diffoddwr tân **cymwys** rheolaidd*" (pwyslais wedi'i ychwanegu), yn hytrach na'r term diffiniedig *"diffoddwr tân rheolaidd"* (fel y'i diffinnir yng Nghynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân (Cymru)).

Mae angen rhagor o wybodaeth ynghylch a yw'r term anniffiniedig hwn yn cael ei ddefnyddio'n fwriadol ac, os felly, pam nad yw'r term wedi'i ddiffinio at ddibenion Cynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân (Cymru).

**5. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn, ym mharagraff 7(3), mae'r geiriau agoriadol yn datgan bod y diwygiadau dilynol sy'n dwyn y rhif fel paragraffau (a) i (c) yn cael eu gwneud. *"Yn rheol 16…"* (o Ran 12 o Gynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân (Cymru)). Fodd bynnag, ym mharagraff 7(4), gwneir diwygiad pellach i baragraff arall yn yr un rheol ond heb nodi bod y paragraff sydd i'w ddiwygio i'w gael hefyd yn rheol 16 o Ran 12.

Felly, mae strwythur y paragraff yn anghywir a dylai paragraff 7(4) fod wedi'i rifo fel paragraff (d) o baragraff 7(3) yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn. Byddai angen addasu rhif yr is-baragraffau dilynol ym mharagraff 7 hefyd i ddilyn yr ailrifo hwn.

Mae gwall tebyg hefyd yn digwydd ym mharagraff 7(6) a (7) o Atodlen 1 i'r Gorchymyn, lle dylai is-baragraff (7) fod wedi'i rifo fel paragraff 7(6)(d), gyda'r is-baragraffau dilynol wedi'u hailrifo i hwyluso'r cywiriad hwn.

**6. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.**

Yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn, ym mhennawd paragraff 1, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at "*Part 1*" ond yn y testun Cymraeg y cyfieithiad yw *"Atodlen 1"*.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**7. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r enw a ddefnyddir i gyfeirio at y cynllun pensiwn a nodir yn Atodlen 2 i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 yn anghyson yn y testunau Cymraeg a Saesneg.

Enw cyfreithiol cywir y cynllun yw Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru), fel y'i hailenwyd gan Orchymyn Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (Cynllun Pensiwn y Dynion Tân) (Cymru) 2004.

Fodd bynnag, i ddefnyddio enghreifftiau yn y testun Saesneg, yn Nodyn Esboniadol y Gorchymyn cyfeirir at Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) fel *"the Firefighters' Pension Scheme (Wales) 1992*". Tra yn nhroednodyn (1) ar dudalen 4 o'r Gorchymyn, cyfeirir at y Cynllun fel *"the 1992 Firefighters' Pension Scheme*".

Mae'r Gorchymyn hwn yn gymhleth ac yn dechnegol ei natur ac ystyrir bod defnyddio enwau gwahanol i gyfeirio at yr un cynllun pensiwn yn debygol o achosi dryswch i'r darllenydd.

**8. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi fel a ganlyn, ym mharagraff 2.1:

> *"Bydd y Pwyllgor yn dymuno nodi na chafodd Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) 1992 na Gorchymyn Cynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 eu creu yn ddwyieithog, a dyna'r rheswm dros ffurf Gorchmynion 2024 sy'n diwygio'r gorchmynion cynharach hynny.* Mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu na fyddai'n gymesur dirymu Gorchymyn 1992 na Gorchymyn 2007 a'u hail-wneud yn ddwyieithog."

Fel eglurhad (ar wahân i'r pwynt sylweddol a eglurir yn y Memorandwm Esboniadol), dylid nodi y dylai'r cyfeiriad uchod at *"Firefighters' Pension (Wales) Scheme Order 1992"* yn hytrach fod yn gyfeiriad at *"Firemen's Pension Scheme Order 1992"*, a wnaed yn uniaith. Fel yr eglurwyd, gwnaed Gorchymyn Cynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 yn uniaith hefyd. Gwnaed Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 yn ddwyieithog.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phwyntiau adrodd 1 i 7.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 29 Ionawr 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Hannah Blythyn AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Partnership**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth
Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

SeneddDCC@senedd.cymru

22 Chwefror 2024

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Chwefror 2024 ynghylch **Gorchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Cymru) 2024**.

Fel y nodir yn ein hymateb i'ch trydydd pwynt adrodd, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad yw testunau Cymraeg a Saesneg rheol newydd 5C(7) (a fewnosodir gan baragraff 6(3) o Atodlen 1 i'r Gorchymyn) yn gyson, a bydd angen i ni ddiwygio'r testun Cymraeg yn unol â hynny.

Ar hyn o bryd mae fy swyddogion yn llunio offeryn a fydd yn gwneud diwygiadau amrywiol i ddeddfwriaeth pensiynau diffoddwyr tân yng Nghymru. Bydd y diwygiadau hynny yn cynnwys darpariaeth i gywiro testun Cymraeg rheol newydd 5C(7). Rwy'n disgwyl gwneud yr offeryn hwnnw o fewn yr 8 i 10 wythnos nesaf.

Yn y cyfamser, gan ystyried cyd-destun a chynnwys y ddarpariaeth yn ei chyfanrwydd, ac wrth gymharu'r testun Cymraeg â'r testun Saesneg, rwy'n ystyried y bydd ystyr y ddarpariaeth yn cael ei ddehongli yn rhesymol yn unol â'r testun Saesneg.

Am y rheswm hwnnw, ac ar y sail y byddaf yn gwneud deddfwriaeth pensiynau bellach yn fuan, rwy'n ystyried ei bod yn briodol mynd i'r afael â'r cywiriad angenrheidiol fel rhan o'r offeryn diwygio ehangach sydd ar ddod.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru
Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir,



**Hannah Blythyn AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol
Deputy Minister for Social Partnership

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Hannah Blythyn AS
Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol

7 Chwefror 2024

Annwyl Hannah,

Gorchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Cymru) 2024

Yn ein cyfarfod ar 29 Ionawr 2024, gwnaethom drafod Gorchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Cymru) 2024 (y Gorchymyn).

Byddwch yn ymwybodol bod ein hadroddiad ar y Gorchymyn yn cynnwys chwe phwynt technegol a dau bwynt o ran rhinweddau. Yn ein cyfarfod ar 5 Chwefror 2024, gwnaethom drafod ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad ar y Gorchymyn.

Fel y gwyddoch, roedd ein trydydd pwynt adrodd technegol yn tynnu sylw at wahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg ar gyfer rheol newydd 5C(7) (sydd i'w gweld ym mharagraff 6(3) o Atodlen 1 i'r Gorchymyn), sy'n golygu bod ystyr wahanol i'r ddau destun a'u bod yn gwrthddweud ei gilydd. Dyma'r ymateb a gawsom i'r pwynt hwn:

> *"Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod testun darpariaethau Cymraeg a Saesneg rheol newydd 5C(7) (a fewnosodir gan baragraff 6(3) o Atodlen 1 i'r Gorchymyn) yn creu ystyron sy'n groes i'w gilydd. Mae'r testun Saesneg a nodir yn gywir, a dylai'r testun Cymraeg cyfatebol ddarllen "Pan **nad oes** gan yr awdurdod gofnodion o dâl y person hwnnw am y cyfnod hwnnw..." (pwyslais wedi ei ychwanegu). Bydd y testun Cymraeg yn cael ei ddiwygio fel sy'n briodol pan fo'r cyfle nesaf yn codi."*

Efallai y byddwch yn gwerthfawrogi ein pryder fel Pwyllgor ei bod yn ymddangos, ar sail yr ymateb a gawsom, nad yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod hwn yn fater brys. Nid oes awgrym yn yr ymateb ychwaith o ran pryd y caiff y testun Cymraeg ei gywiro. Yn y cyfamser, mae'r gyfraith yn y maes hwn yn ddiffygiol, sy'n anfoddhaol.

Byddem yn croesawu cael cadarnhad ynghylch pryd y caiff y gwall yn rheol newydd 5C(7) ei gywiro.

Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb erbyn dydd Iau 22 Chwefror 2024.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

# SL(6)450 – Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) (Diwygio) 2024

## Cefndir a Diben

Mae Deddf Addysg (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chyngor y Gweithlu Addysg ("y Cyngor"). Mae adrannau 26 i 32 o Ddeddf 2014 yn rhoi swyddogaethau disgyblu i'r Cyngor mewn perthynas â phersonau sydd wedi'u cofrestru yn y gofrestr a gynhelir gan y Cyngor ("person cofrestredig").

Mae Rhan 5 o Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015 ("y Prif Reoliadau") yn gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas â swyddogaethau disgyblu'r Cyngor. Yn benodol, mae rheoliad 26 o Ran 5 o'r Prif Reoliadau yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag aelodaeth a gweithdrefn y Pwyllgor Ymchwilio a'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer a sefydlwyd gan y Cyngor. Yn benodol, mae paragraff (1) o reoliad 26 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor benodi aelod sy'n berson cofrestredig i bob un o'r pwyllgorau hynny ("aelod sy'n berson cofrestredig"). Diffinnir aelod sy'n berson cofrestredig ym mharagraff (6)(b) o reoliad 26 o'r Prif Reoliadau.

Mae rheoliad 2(2) o'r Rheoliadau hyn yn diwygio testun Saesneg y Prif Reoliadau er mwyn cywiro gwall gramadegol yn enw'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer. Diwygir enw'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer yn y testun Saesneg o'r "Fitness to Practice Committee" i'r "Fitness to Practise Committee". Mae rheoliad 2(3) o'r Rheoliadau hyn yn cywiro'r un gwall gramadegol yn yr unig gyfeiriad at y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer yn Saesneg yn nhestun Cymraeg y Prif Reoliadau.

Mae rheoliad 2(4) o'r Rheoliadau hyn yn rhoi diffiniad newydd o aelod sy'n berson cofrestredig yn lle'r diffiniad presennol ym mharagraff (6)(b) o reoliad 26 o'r Prif Reoliadau. Effaith yr amnewidiad hwnnw yw na fydd yn ofyniad mwyach i'r aelod sy'n berson cofrestredig fod wedi'i gofrestru yn yr un categori â'r person cofrestredig sy'n destun yr achos disgyblu. Yn hytrach, dim ond mewn o leiaf un o'r categorïau cofrestru a nodir yn Nhabl 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2014 y mae angen i'r aelod sy'n berson cofrestredig fod wedi'i gofrestru.

Mae rheoliad 2(5) o'r Rheoliadau hyn yn cywiro gwall mewn croesgyfeiriad yn rheoliad 45(3)(b) o'r Prif Reoliadau.

Mae rheoliad 2(6) o'r Rheoliadau hyn yn diwygio paragraff 21 o Ran 1 o Atodlen 2 i'r Prif Reoliadau er mwyn cynnwys cyfeiriad at adran 167A o Ddeddf Addysg 2002 (gwahardd cymryd rhan yng ngwaith rheoli ysgolion annibynnol).

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 2(4), mae'r diffiniad o "aelod sy'n berson cofrestredig" wedi'i ddiwygio drwy roi paragraffau newydd yn lle paragraffau (i) a (ii) o reoliad 26(6)(b) o Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015.

Fodd bynnag, ym mharagraff (i) newydd, mae'n cyfeirio at "**berson sydd wedi ei gofrestru**..." ond mae'r testun presennol yn cyfeirio at "**berson cofrestredig**...".

Mae hyn yn wahaniaeth sylweddol gan fod "person cofrestredig" yn derm diffiniedig yn rheoliad 3(1) o Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015.

Felly, mae'n ymddangos y dylai'r term "person cofrestredig" fod wedi'i ddefnyddio hefyd ym mharagraff (i) newydd wrth ddiwygio ystyr "aelod sy'n berson cofrestredig".

## Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 19 Chwefror 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) (Diwygio) 2024**

*Pwynt Craffu Technegol 1:* Nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno â’r pwynt adrodd technegol. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod y diwygiad yn effeithiol yn gyfreithiol, a bod yr ystyr a fwriedir yn glir yn y cyd-destun. Mae’r diwygiad yn cwmpasu person sydd wedi ei gofrestru mewn o leiaf un “categori cofrestru”. Diffinnir hyn yn adran 41(1) o’r Ddeddf alluogi drwy gyfeirio at adran 9(3) o’r Ddeddf honno.

Eitem 4.1

# SL(6)452 – Casglu Deunyddiau Gwastraff ar wahân ar gyfer Ailgylchu – Cod Ymarfer Cymru

## Cefndir a diben

Mae Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023 ("Rheoliadau 2023") yn nodi'r gofynion gwahanu yng Nghymru at ddibenion adran 45AA o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ("EPA 1990"). Mae Rheoliadau 2023 yn gymwys i gyflwyno, casglu a thrin gwastraff mewn cysylltiad ag eiddo annomestig.

Mae adran 45AB(1) o EPA 1990 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi codau ymarfer at ddiben rhoi canllawiau ymarferol ynghylch sut i fodloni gofynion a osodir gan neu o dan adran 45AA.

Mae Casglu Deunyddiau Gwastraff ar wahân ar gyfer Ailgylchu – Cod Ymarfer Cymru ("y Cod") wedi'i ddyroddi gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pŵer hwn ac mae'n rhoi canllawiau ar sut i fodloni'r gofynion gwahanu yn Rheoliadau 2023.

Gosododd Gweinidogion Cymru fersiwn o'r Cod hwn am y tro cyntaf ar 4 Rhagfyr 2023, a ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn ei gyfarfod ar 8 Ionawr 2024. Gwnaeth adroddiad y Pwyllgor godi nifer o bwyntiau adrodd o dan Reol Sefydlog 21.7.

Mae'n ymddangos bod y Cod a osodwyd ar 30 Ionawr 2024 yn disodli'r fersiwn a osodwyd ar 4 Rhagfyr 2023 i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor.

## Y weithdrefn

Dim gweithdrefn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod y Cod gerbron y Senedd fel sy'n ofynnol gan adran 45AB(4)(b) o EPA 1990.

## Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn cysylltiad â'r Cod hwn.

1. Tybir bod y Cod a osodwyd ar 30 Ionawr 2024 yn disodli'r Cod o'r un enw a osodwyd ar 4 Rhagfyr 2023, ond nid yw'n:
    - cael ei esbonio i'r Senedd mewn unrhyw ddogfennaeth a osodwyd ochr yn ochr â'r Cod,
    - cael ei nodi ar wyneb y Cod ei hun,
    - cael ei nodi ar wefan Llywodraeth Cymru y gellir cyrchu'r Cod ohono (er bod y wefan yn nodi "diweddarwyd ddiwethaf" ar 30 Ionawr 2024).

Gofynnir i Lywodraeth Cymru, felly, gadarnhau bod y Cod a osodwyd ar 30 Ionawr 2024 yn disodli'r fersiwn a osodwyd ar 4 Rhagfyr 2023.

At hynny, gofynnir i Lywodraeth Cymru sut y bydd y rheini y mae'n bosibl eu bod eisoes wedi lawrlwytho neu argraffu fersiwn 4 Rhagfyr 2023 o'r Cod – wrth baratoi ar gyfer y gofynion gwahanu newydd yn dod i rym – yn cael gwybod bod y Cod wedi'i ddiweddaru.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 19 Chwefror 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Casglu Deunyddiau Gwastraff ar Wahân ar gyfer Ailgylchu – Cod Ymarfer Cymru**

Pwynt craffu 1: Gall Llywodraeth Cymru gadarnhau bod y Cod a osodwyd ar 30 Ionawr 2024 yn disodli'r fersiwn a osodwyd ar 4 Rhagfyr 2023. Y fersiwn ddiweddaraf hon o'r Cod yw hefyd yr un sy'n fyw ar y dudalen we. Mae rhanddeiliaid yn cael eu hysbysu bod y Cod wedi cael ei ddiweddaru drwy'r gwaith ymgysylltu sy'n cael ei gynnal wrth baratoi ar gyfer y gofynion newydd yn dod i rym ym mis Ebrill.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llŷr Gruffydd MS

Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith

Senedd Cymru

SeneddClimate@senedd.wales

20 Chwefror 2024

Annwyl Huw,

**Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Lloegr) a Rheolaethau Swyddogol (Amlder Gwiriadau) (Diwygio) 2024.**

Hoffwn hysbysu'r Pwyllgor o'r bwriad i gydsynio i Lywodraeth y DU wneud a gosod Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Cymru) a Rheolaethau Swyddogol (Amlder Gwiriadau) (Diwygio) 2024 ("Y Rheoliadau") erbyn 4 Mawrth 2024.

Derbyniais lythyr gan Rebecca Pow AS, ar ran yr Arglwydd Benyon, y Gweinidog Bioddiogelwch, Materion Morol a Gwledig, yn gofyn am gydsyniad i ddarpariaethau yn y Rheoliadau. Gwneir y darpariaethau hyn yn Rhan 3 o'r Rheoliadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, drwy arfer y pwerau a roddir gan Erthyglau 54(3) a 144(6) o Reoliad (UE) 2017/625, a pharagraff 3(2) o Atodiad 6 iddo. Mae Erthygl 3(2B) o Reoliad (UE) 2017/625 yn datgan y gall yr Ysgrifennydd Gwladol wneud Rheoliadau o'r fath gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru .

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Bydd gohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg, ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ar 30 Ebrill 2024, o dan Fodel Gweithredu Targed y Ffin, bydd gwiriadau mewnforio ar sail risg yn cael eu cynnal mewn Safleoedd Rheolaethau'r Ffin ar blanhigion ac ar gynhyrchion planhigion risg ganolig a fydd yn cael eu mewnforio o'r UE, Liechtenstein a'r Swistir Yn ogystal, bydd gwiriadau ar y dogfennau sy'n gysylltiedig â'r nwyddau hynny yn cael eu cynnal yn llai aml fel eu bod yn cyd-fynd â pha mor aml y bydd gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol yn cael eu cynnal. Yn unol â Model Gweithredu Targed y Ffin, ni fydd y newidiadau hyn yn cael eu cyflwyno mewn "porthladdoedd perthnasol" ar Arfordir y Gorllewin, gan gynnwys Abergwaun, Caergybi a Phenfro, tan 31 Hydref fan cynharaf.

Mae'r Rheoliadau'n ehangu OS 2022/739 er mwyn cynnwys y nwyddau risg ganolig o'r UE, Liechtenstein a'r Swistir yn y fframwaith a geir yn yr Offeryn hwnnw ar gyfer pennu pa mor aml y cynhelir gwiriadau ffisegol a gwiriadau adnabod. Byddant yn diwygio Atodiad 6 o'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol i sicrhau bod y 'gyfradd amlder briodol' ar gyfer nwyddau risg canolig o'r UE, Liechtenstein a'r Swistir yn cael ei sefydlu gan Erthygl 53.

Mae'r Offeryn Statudol (OS) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, a disgwylir iddo gael ei osod gerbron Senedd y DU ar 4 Mawrth 2024. Daw'r Rheoliadau i rym ar 30 Ebrill 2024.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, y tro hwn, ystyrir ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar lefel Prydain Fawr. Mae'r Rheoliadau'n ymwneud â maes datganoledig, fodd bynnag, maent yn effeithio ar fewnforio cynhyrchion planhigion a phlanhigion ar draws Prydain. Mae llawer o'r newidiadau yn y Rheoliadau yn ymwneud â mewnforio planhigion a chynhyrchion planhigion. Mae'r rhan fwyaf o'r nwyddau hyn sy'n dod i mewn i Gymru yn dod trwy borthladdoedd Lloegr a byddent yn ddarostyngedig i'w deddfwriaeth mewnforio. Gallai cyflwyno rheoliadau ar wahân yng Nghymru a Lloegr greu baich ychwanegol ar yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA), busnesau, masnachwyr a thyfwyr. Mae rheoleiddio ar lefel Prydain Fawr yn sicrhau llyfr statud cydlynol a chyson, gyda'r rheoliadau ar gael mewn un offeryn heb unrhyw risg o wahaniaeth deddfwriaethol ym Mhrydain Fawr. Yn ogystal, mae'n debygol y byddai gwneud Rheoliadau Cymru yn unig ar gyfer rhai darpariaethau o fewn yr OS hwn yn golygu goblygiadau ar gyflawni'r Model Gweithredu Targed y Ffin ehangach.

Hoffwn sicrhau'r Pwyllgor hwn mai polisi Llywodraeth Cymru fel arfer yw deddfu dros Gymru ar faterion o fewn cymhwysedd datganoledig. Felly, rwy'n rhoi fy nghydsyniad i'r darpariaethau yn y Rheoliadau hyn. Felly nid oes gwahaniaeth o ran polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn y mater hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud y darpariaethau eraill yn y Rheoliadau ar gyfer Cymru yn unig drwy Reoliadau Iechyd Planhigion etc (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio) (Cymru).

Rwyf wedi ysgrifennu yn yr un modd at Huw Irranca-Davies MS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadair
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

SeneddLJC@senedd.cymru

20 Chwefror 2024

Annwyl Huw,

Yn dilyn eich llythyr dyddiedig 31 Ionawr 2024 ynghylch Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygiadau Amrywiol) 2024 a osodwyd gan Lywodraeth y DU ar 9 Ionawr ac a ddaeth i rym ar 31 Ionawr 2024, gweler fy ymateb i'ch cwestiynau yn Atodiad 1.

Yn gywir,

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad 1**

1. **Yr offeryn statudol hwn fydd y darn cyntaf o ddeddfwriaeth i weithredu carreg filltir gyntaf Model Gweithredu Targed y Ffin (TOM) o 31 Ionawr 2024 ymlaen. A allech chi ddarparu rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth y rhagwelir y bydd eu hangen i gyrraedd cerrig milltir yn y dyfodol?**

   Bydd deddfwriaeth bellach i weithredu'r newidiadau polisi a amlinellir yn y Model Gweithredu Targed y Ffini sydd i ddod i rym o fis Ebrill 2024 a deddfwriaeth dros gyfnod hwy i weithredu darpariaethau a drefnwyd yn wreiddiol ar gyfer mesur yn Senedd y DU. Ymhlith y cyntaf bydd estyniad pellach i'r Cyfnod Llwyfannu Trosiannol i ohirio cymhwyso rheolaethau mewn perthynas â nwyddau sy'n symud i Brydain Fawr o Iwerddon nes bod dyddiad eto i gytuno arno. Rwy'n rhagweld y bydd llawer o'r rhain yn cael eu gwneud ar sail Prydain gyfan, ond byddaf yn ceisio cyngor ar unrhyw ddeddfwriaeth newydd ac yn hysbysu'r Pwyllgorau Seneddol perthnasol. Mae rhagor o fanylion ar gael yn Atodiad 2.

   Bydd newidiadau hefyd i ddeddfwriaeth Nwyddau Cymwys Gogledd Iwerddon i sicrhau bod y budd yn canolbwyntio mwy ar Ogledd Iwerddon a rhoi mynediad dilyffethair i farchnad Prydain drwy Iwerddon. Ar y llaw arall, bydd angen deddfwriaeth i sicrhau bod nwyddau nad ydynt yn gymwys fel nwyddau o Iwerddon neu'r EU sy'n cael eu cyfeirio trwy Ogledd Iwerddon yn destun gwiriadau.

2. **Rydych yn datgan yn eich llythyr nad oedd yn bosibl rhoi rhybudd ymlaen llaw i'm Pwyllgor o'ch bwriad i gydsynio i'r Rheoliadau gan fod yr offeryn statudol wedi'i dderbyn yn ystod y toriad. A allech chi nodi a roddwyd rhybudd ymlaen llaw i chi gan Lywodraeth y DU o gwmpas arfaethedig y rheoliadau hyn, ac os felly, pryd y cawsoch yr hysbysiad hwn?**

   Roedd Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r angen i gyflwyno'r offeryn statudol hwn wrth i Weinidogion Cymru gytuno ar gyhoeddi'r Model Gweithredu Targed y Ffin ar 29 Awst 2023, a oedd yn nodi'r llinell amser ddisgwyliedig ar gyfer cyflwyno'r Model Gweithredu Targed. Fodd bynnag, roedd yn rhaid i'm swyddogion sicrhau bod yr offeryn statudol perthnasol yn addas i'r diben ac nad oedd yr offeryn yn effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, na chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru. Dim ond ar ôl iddynt weld yr offeryn drafft terfynol oedd hyn yn bosibl. Er y byddwn yn ystyried pob darn o ddeddfwriaeth ar sail ei deilyngdod, rwy'n rhagweld y byddwn yn cymryd ymagwedd ar draws Prydain at y ddeddfwriaeth sy'n weddill i weithredu'r Model Gweithredu Targed y Ffin.

3. **Rydych wedi cyfnewid gohebiaeth o'r blaen â'm Pwyllgor ar y berthynas rhwng rheoliadau rheolaethau swyddogol a rhwymedigaethau rhyngwladol, yn enwedig i reolau Sefydliad Masnach y Byd a Chytundeb Masnach a Chydweithrediad y DU-UE. Fe wnaethoch godi pryderon y gallai'r sefyllfa bresennol fod yn anghydnaws â rhwymedigaethau'r DU ond mai sefyllfa dros dro oedd hon ac nad Gweinidogion Cymru oedd yn gyfrifol am yr anghydnawsedd hwn. A allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch a yw'r rheoliadau hyn yn datblygu'r sefyllfa hon a sut?**

Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno sawl hysbysiad mewn perthynas â'r Model Gweithredu Targed y Ffin i aelodau Sefydliad Masnach y Byd a hyd yma, nid oes unrhyw bryderon masnach penodol wedi'u codi.  Mae Llywodraeth y DU yn parhau i ymgysylltu gyda Sefydliad Masnach y Byd ac aelodau’r UE ar faterion sy'n ymwneud â'r Model Gweithredu Targed y Ffin ac nid ydym wedi cael gwybod am unrhyw bryderon penodol am y ddeddfwriaeth hon ond byddwn yn parhau i hysbysu ac ymgysylltu â Sefydliad Masnach y Byd ac aelodau’r UE ar gynlluniau ar gyfer gweithredu'r Model Gweithredu Targed y Ffin.

**Atodiad 2**

Dull deddfwriaethol disgwyliedig.

Mae Llywodraeth y DU yn disgwyl cyflwyno'r rhan fwyaf o'r Model Gweithredu Targed y Ffin (yn amodol ar gydsyniad Gweinidogion Cymru) gan ddefnyddio chwe OS traws-bolisi (gan gynnwys yr OS rydych yn gohebu yn ei gylch) i'w gosod mewn trefn fel isod (gall y rhestr newid, gan gynnwys offerynnau statudol ychwanegol).

| OS | Amseriad | Cynnwys |
|---|---|---|
| Wedi'i wneud yn Negyddol | Gosod<br>9 Ionawr 2024<br>CIF<br>31 Ionawr 2024 | **Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygiadau Amrywiol) 2023**<br>Bydd yr OS hwn yn cyflwyno tystysgrifau ar nwyddau risg canolig penodol o'r UE, yn dod â'r eithriadau o nwyddau sy'n symud o ynys Iwerddon i Brydain Fawr o ofynion rhaghysbysu ac yn ymestyn y Cyfnod Graddoli Trosiannol tan 29 Ebrill 2024. |
| PH/050<br>Wedi'i wneud yn Negyddol | Gosod<br>04 Ebrill 2024<br>CIF 30 Ebrill 2024 | **Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ac Amodau Ffytoiechydol (Diwygio) 2024 (i'w gadarnhau)**<br>Mae'r Model Gweithredu Targed yn berthnasol i nwyddau RoW ac mae gwiriadau adnabod a ffisegol yn cael eu defnyddio ar nwyddau'r UE yn seiliedig ar risg. Gwneir hyn trwy ddefnyddio'r Cyfnod Graddoli Trosiannol a'r pwerau sy'n bodoli eisoes nes bod gwelliannau wedi'u gwneud i'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol. |
| OFC/016<br>Cadarnhaol Drafft | Gosod<br>26 Chwefror<br>CIF 30 Ebrill 2024 | **Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Ffioedd a Thaliadau) (Diwygio) 2024 (i'w gadarnhau)**<br>Mae'r OS hwn yn defnyddio adrannau 14(2) a (3) o Ddeddf REUL i ddiwygio'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol. Mae'n rhoi mwy o hyblygrwydd o ran defnyddio a phennu ffioedd a thaliadau, tra'n cynnal y gofyniad i adennill costau. Mae'n galluogi awdurdodau cymwys i weinyddu model codi tâl cyson ar draws safleoedd Rheolaethau'r Ffin sy'n cael eu rhedeg gan y llywodraeth ym Mhrydain. |
| OFC/017<br>Cadarnhaol Drafft | Gosod<br>20 Mai 2024<br>CIF 8 Gorffennaf 2024 | **Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Model Gweithredu Targed y Ffin) 2024**<br>Yn diwygio'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol i sicrhau bod pwerau ar gael i gyflwyno'r Model Gweithredu Targed yn y tymor hir a'r wybodaeth ddiweddaraf dros amser, gan ganiatáu ar gyfer categoreiddio risg ar gyfer cynhyrchion anifeiliaid, gwiriadau i ffwrdd o'r ffin ac ati. |
| AH/055<br>Wedi'i wneud yn Negyddol | Gosod<br>9 Hyd 2024<br>CIF 31 Hydref 2024 | **Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Iechyd Planhigion etc.) (Diwygio) (Rhif 1) 2024 (i'w gadarnhau)**<br>Gwneir rheoliadau gan ddefnyddio pwerau diwygiedig yn y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol yn dilyn OFC/017. |
| OFC/011<br>Wedi'i wneud yn Negyddol | I'w gadarnhau ddiwedd 2024/dechrau 2025 | **Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Iechyd Planhigion etc.) (Diwygio) (Rhif 2) 2024 (i'w gadarnhau)**<br>Gwneir rheoliadau gan ddefnyddio pwerau diwygiedig yn y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol yn dilyn OFC/017. |

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd

31 Ionawr 2024

Annwyl Lesley,

Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 10 Ionawr 2024 mewn perthynas â’ch penderfyniad i gydsynio i wneud y Rheoliadau uchod. Bu fy Mhwyllgor yn trafod y llythyr yn ei gyfarfod ar 15 Ionawr 2024.

Byddai'n ddefnyddiol i ni gael rhagor o wybodaeth am y Rheoliadau a deddfwriaeth arall sy'n ofynnol i weithredu Model Gweithredu Targed y Ffin. Byddem felly’n ddiolchgar pe gallech ymateb i’r cwestiynau sydd yn yr atodiad erbyn 21 Chwefror 2024.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

## Atodiad

1. Rydych yn datgan yn eich llythyr mai'r offeryn statudol fydd y darn cyntaf o ddeddfwriaeth i weithredu carreg filltir gyntaf Model Gweithredu Targed y Ffin o 31 Ionawr 2024. A allech ddarparu rhagor o wybodaeth mewn perthynas â deddfwriaeth y rhagwelir y bydd ei hangen i gyrraedd cerrig milltir yn y dyfodol?

2. Rydych yn nodi yn eich llythyr nad oedd yn bosibl rhoi hysbysu fyh Mhwyllgor ymlaen llaw am eich bwriad i gydsynio â'r Rheoliadau gan mai yn ystod y toriad y daeth yr offeryn statudol i law. A allwch chi nodi a wnaeth Llywodraeth y DU eich hysbysu ymlaen llaw am gwmpas arfaethedig y rheoliadau hyn, ac os felly, pryd y rhoddwyd y cawsoch chi eich hysbysu?

3. Rydych chi wedi cyfnewid gohebiaeth gyda'm Pwyllgor yn y gorffennol am y berthynas rhwng rheoliadau rheolaethau swyddogol a rhwymedigaethau rhyngwladol, yn enwedig i reolau Sefydliad Masnach y Byd a Chytundeb Masnach a Chydweithrediad y DU a'r UE. Fe wnaethoch chi fynegi pryderon y gallai'r sefyllfa bresennol fod yn anghydnaws â rhwymedigaethau'r DU ond mai sefyllfa dros dro oedd hon, ac nad Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am risgiau'r anghydnawsedd hwn. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch a yw'r rheoliadau hyn yn datblygu'r sefyllfa hon a sut hynny?

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

21 Chwefror 2024

**Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Ffioedd a Thaliadau) (Diwygio) 2024**

Annwyl Huw,

Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor o'm bwriad i gydsynio i Lywodraeth y DU wneud a gosod y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Ffioedd a Thaliadau) (Diwygio) 2024.

Rwyf wedi derbyn llythyr gan y Gweinidog Gwladol dros Fioddiogelwch, Iechyd a Lles Anifeiliaid, yr Arglwydd Douglas-Miller, yn gofyn am gydsyniad i'r Rheoliadau hyn. Mae'r Rheoliadau'n croestorri â pholisi datganoledig a byddant yn berthnasol i Gymru. Bydd y Rheoliadau yn ymestyn i Gymru, Lloegr a'r Alban ac mae cais tebyg am gydsyniad wedi'i anfon at Weinidogion yr Alban.

Gwneir y Rheoliadau drwy arfer y pwerau a roddwyd o dan adran 14(2) a (3) o Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023. Mae'r Rheoliadau'n ymwneud â gweithredu newidiadau i drefn rheolaethau'r ffin ar gyfer archwiliadau iechydol a ffytoiechydol (SPS), a gyhoeddwyd yn y Model Gweithredu Targed y Ffin ym mis Awst 2023. Maent yn hwyluso gwelliannau sydd eu hangen i alluogi taliadau a ffioedd am reolaethau swyddogol ar nwyddau mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r drefn newydd.

Bydd y Rheoliadau yn gweithredu cerrig milltir y Model Gweithredu Targed y Ffin. Mae'r Rheoliadau'n hwyluso gwelliannau sydd eu hangen i alluogi taliadau a ffioedd am reolaethau swyddogol ar nwyddau archwiliadau iechydol a ffytoiechydol mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r drefn newydd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nid yw'r Rheoliadau yn ymrwymo Gweinidogion Cymru i fabwysiadu unrhyw safbwynt Llywodraeth y DU ar fioddiogelwch yn y dyfodol. Nid yw'r Rheoliadau yn lleihau nac yn tanseilio pwerau Gweinidogion Cymru mewn unrhyw ffordd.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, ar yr achlysur hwn, ystyrir ei bod yn briodol i'r offeryn hwn fod yn berthnasol i Gymru gan nad oes gwahaniaeth polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn y mater hwn. Mae hyn yn sicrhau llyfr statud cydlynol a chyson gyda'r rheoliadau ar gael mewn un offeryn. Credaf nad deddfu ar wahân i Gymru fyddai'r ffordd fwyaf priodol o weithredu'r newidiadau angenrheidiol, ac na fyddai'n ddefnydd darbodus o adnoddau Llywodraeth Cymru o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill.

Rwyf wedi ysgrifennu llythyr tebyg at Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddLJC@senedd.cymru

21*ain* Chwefror 2024

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gyfiawnder**

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod ichi y cafodd ail gyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gyfiawnder ei gynnal ar 25 Ionawr.

Cynhaliwyd y cyfarfod hybrid o dan gadeiryddiaeth Angela Constance ASA, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder a Materion Cartref, yng Nghaeredin.

Cafodd Llywodraeth y DU ei chynrychioli gan yr Arglwydd Bellamy CB (Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder), John Lamont (Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yr Alban), Fay Jones (Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru) a'r Arglwydd Caine (Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Gogledd Iwerddon).

Yn absenoldeb Gweinidogion Gogledd Iwerddon, roedd Richard Pengelly, Ysgrifennydd Parhaol Adran Gyfiawnder Gogledd Iwerddon yn bresennol unwaith eto ar ran Gwasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon. Yn sgil adfer sefydliadau datganoledig yng Ngogledd Iwerddon, disgwylir y bydd Gweinidog o'r Weithrediaeth newydd yn mynychu'r cyfarfod nesaf.

Mae datganiad sy'n crynhoi busnes y cyfarfod wedi ei gyhoeddi, ac mae hwnnw ar gael yma.

Prif ffocws y cyfarfod oedd trafod y gwahanol sut y gellid rhyddhau dioddefwyr Sgandal Horizon Swyddfa'r Post o unrhyw fai a'u digolledu wedi iddynt gael eu herlyn a'u cael yn euog o drosedd ar gam. Mynegais fy marn bod y difrod i enw da'r system gyfiawnder yn sylweddol, ac nad yw systemau cyfrifiadurol bob amser yn gywir a bod cysylltiad clir â pheryglon cynyddu'r defnydd o dechnolegau eraill o fewn y system gyfiawnder, gan gynnwys technoleg deallusrwydd artiffisial ac adnabod wynebau, heb fod digon o ddealltwriaeth o'r risgiau a chynlluniau clir i'w lliniaru. Hefyd mynegais fy marn bod dyletswydd gonestrwydd statudol yn hanfodol ar gyfer helpu i atal achosion tebyg o

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gamweinyddu cyfiawnder rhag digwydd yn y dyfodol. Cytunwyd y bydd y materion hyn yn ffocws trafodaeth ar wahân mewn cyfarfod arall.

Yna trafododd y cyfarfod y camau a gymerir i wella capasiti carchardai, adfer y llysoedd, a materion yn ymwneud â chymorth cyfreithiol.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ymhen tua 4 mis. Byddaf yn rhoi gwybod ichi unwaith y bydd wedi ei drefnu.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a’r Prif Chwip.

Yn gywir

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

**Sam Rowlands**
Member of the Welsh Parliament for
North Wales
-
Aelod Senedd dros
Gogledd Cymru

**North Wales Office | Swyddfa Gogledd Cymru**
North Wales Business Park, Abergele LL22 8LJ
-
**Cardiff Office | Swyddfa Caerdydd**
Senedd Cymru, Cardiff Bay, Cardiff CF99 1SN
-
**Tel | Ffôn:** 0300 200 7267
**Email | E-bost:** sam.rowlands@senedd.wales

Jayne Bryant, AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru,
Bae Caerdydd,
CF99 1SN

19 Chwefror 2024

Annwyl Jayne,

**Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)**

Hoffwn achub ar y cyfle i ddiolch i chi ac aelodau eraill o'r Pwyllgor am yr amser rydych wedi'i dreulio'n ystyried manylion y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru).

Rwy'n ysgrifennu mewn perthynas ag un o'r pwyntiau a wnes i yn ystod fy sesiwn dystiolaeth ar 1 Chwefror, yn ymwneud â'm disgwyliadau o ran effaith y Bil ar wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed.

Nododd fy ymateb cychwynnol i'r cwestiwn penodol a ofynnwyd fod y Memorandwm Esboniadol i'r Bil yn cyfeirio at ble y gall y Bil roi cyfleoedd i gefnogi pobl ifanc â'u hiechyd meddwl. Dywedais y byddwn yn dilyn hynny gyda nodyn, sydd wedi'i gynnwys yn yr Atodiad i'r llythyr hwn. Byddwn yn hapus i roi unrhyw wybodaeth bellach y gallai'r Pwyllgor ei hystyried yn ddefnyddiol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir,

Sam Rowlands AS
**Aelod o Senedd Cymru dros Ogledd Cymru**

**Atodiad: Nodyn o sut y gall Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) gefnogi pobl ifanc ag iechyd meddwl**

Mae effaith gadarnhaol y Bil ar iechyd meddwl plant wedi'i hamlygu drwy gydol y gwaith craffu ar y Bil mewn tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig, gennyf i fel yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, a chan randdeiliaid eraill.

Mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y nodyn hwn yn tynnu sylw at yr hyn sydd eisoes wedi'i nodi yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil. Nid yw'n ceisio tynnu gwybodaeth allan sydd wedi'i chyflwyno fel tystiolaeth i'r Pwyllgor.

**Ystyried yr ymchwil**

Mae ymchwil hefyd yn dangos bod plant sy'n byw mewn cartrefi incwm isel yn fwy tebygol o brofi problemau iechyd meddwl, a bod problemau yn cynyddu ymhlith plant a phobl ifanc.[1] Mae polisi Llywodraeth Cymru yn ceisio mynd i'r afael â'r her hon drwy ganolbwyntio ar ddatblygu gwydnwch emosiynol plant a phobl ifanc a'r sgiliau i ofalu am eu hiechyd meddwl eu hunain.[2] Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar strategaeth iechyd meddwl newydd, ac un cynnig craidd yw bod pobl yn cymryd camau i hybu eu lles eu hunain a lles y gymuned ehangach.[3] (Paragraff 52 o'r Memorandwm Esboniadol).

Daeth adolygiad systematig diweddar o ddeunydd ysgrifenedig o fanteision 'chwaraeon awyr agored' i gymdeithas i'r casgliad eu bod yn gysylltiedig â nifer o ganlyniadau sy'n cynrychioli buddsoddiad cost-effeithiol.[4] Mae'r manteision yn cynnwys iechyd a lles corfforol a meddyliol, dinasyddiaeth weithredol a chyfraniad at fondio mewn teuluoedd a chymunedau. Mae tystiolaeth gref hefyd o ddatblygiad rhyngbersonol sy'n ymwneud ag agweddau corfforol, meddyliol, gwybyddol, ymddygiadol a chymdeithasol o'ch hunan, manteision addysgol, gan gynnwys gwell hunan-gymhelliant a pharodrwydd i wynebu a goresgyn heriau.

Yn ystod y pandemig Covid-19 a'r cyfnod dilynol o ddychwelyd i'r ysgol ar ôl y cyfnod clo, roedd dogfennau canllaw Llywodraeth Cymru yn cynnwys cyfeiriad penodol at ddysgu yn yr awyr agored a'r manteision i iechyd a llesiant yn sgil hynny. Mae canlyniadau arolwg diweddaraf Active Lives[5] yn dangos, er bod plant iau yn fwy actif mewn chwaraeon tîm, wrth i bobl fynd yn hŷn, gallant barhau i fod yn actif trwy weithgareddau fel cerdded, beicio, rhedeg a nofio. Er bod yr arolwg hwn yn cyfeirio at ymatebwyr yn Lloegr gan nad oes data cymharol ar gael ar gyfer Cymru, mae'n rhesymol awgrymu na fyddai'r canfyddiadau'n sylweddol wahanol

---

[1] Iechyd Cyhoeddus Cymru, Dadansoddiad newydd yn datgelu anghydraddoldebau o ran gofal iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru (Gorffennaf 2022)

[2] Ymchwil y Senedd, Plant a phobl ifanc: a oes argyfwng iechyd meddwl? (Mai 2022)

[3] Llywodraeth Cymru, Strategaeth iechyd meddwl

[4] Eigenschenk, B. et al. (2019) 'Benefits of Outdoor Sports for Society. A Systematic Literature Review and Reflections on Evidence.', International Journal Of Environmental Research And Public Health, 16(6), p. 937.

[5] Sport England, Active Lives Adult Survey November 2020-21 Report (Ebrill 2022)

yng Nghymru. Mae gwaith ymchwil diweddar a gyflwynwyd drwy Gymdeithas Ymchwil Addysg Prydain[6] yn awgrymu cysylltiadau arwyddocaol rhwng iechyd pobl hŷn, lefelau gweithgaredd a'r profiadau a gawsant fel pobl ifanc wrth gymryd rhan mewn addysg awyr agored. (Paragraffau 79 ac 80 o'r Memorandwm Esboniadol)

**Manteision iechyd meddwl sy'n codi o'r Bil**

Yn 2021-22, roedd iechyd meddwl yn unig yn cyfrif am 10.9% o gyfanswm gwariant y GIG yng Nghymru (tua £962 miliwn).[7] At hynny, amcangyfrifir bod iechyd meddwl yn costio £4.8 biliwn[8] i economi Cymru bob blwyddyn ac, er nad oes modd eu mesur yn uniongyrchol, mae gan cyrsiau addysg awyr agored breswyl botensial sylweddol i fod yn llawer mwy na phrofiadau untro a gallant ysgogi cyfranogiad gydol oes mewn gweithgaredd awyr agored, gyda manteision iechyd a lles cysylltiedig[9], gan leihau'r effaith ar y GIG o bosibl.

Yn ei dro bydd hyn yn cael effeithiau hirdymor ar iechyd a lles y boblogaeth wrth iddynt adael yr ysgol a chael mwy o gyfle i ddod yn oedolion iach (hefyd yn unol ag un o bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru). Gallai manteision iechyd meddwl a llesiant rhaglenni addysg awyr agored breswyl leihau'r galw ar wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed yn y dyfodol agos a gallent hefyd leihau'r galw ar y GIG ehangach a gwasanaethau gofal iechyd yn y tymor hwy.

Mae iechyd meddwl plant wedi cael lle amlwg ar yr agenda polisi a chraffu yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiadau i flaenoriaethu ym maes iechyd meddwl, blaenoriaethu ailgynllunio gwasanaethau er mwyn gwella ataliaeth, mynd i'r afael â stigma, a hyrwyddo ymagwedd dim drws anghywir o ran cael mynediad at gymorth iechyd meddwl. Mae hyn yn cynnwys fframwaith NYTH[10] sy'n ceisio sicrhau dull system gyfan ar gyfer datblygu gwasanaethau iechyd meddwl, llesiant a chymorth i fabanod, plant, pobl ifanc, rhieni, gofalwyr a'u teuluoedd ehangach ledled Cymru.

Yn 2018, cyhoeddodd un o bwyllgorau'r Senedd "Cadernid Meddwl", sef adroddiad ar ei ymchwiliad i iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc[11] a chynhaliodd waith craffu dilynol yn 2020.[12] Yn dilyn hynny, mae gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant gyfrifoldeb gweinidogol ar y cyd dros y Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Llesiant. Mae Llywodraeth

---

[6] Cymdeithas Ymchwil Addysg Prydain, Ageing in nature: Outdoor learning as lifelong learning (Mehefin 2021)
[7] Llywodraeth Cymru: Cyllidebau Rhaglenni Gwariant y GIG: Ebrill 2021 i Fawrth 2022
[8] Adroddiad y Sefydliad Iechyd Meddwl: The economic case for investing in the prevention of mental health conditions in the UK
[9] Takako Takano (2010) A 20-year retrospective study of the impact of expeditions on Japanese participants, Journal of Adventure Education and Outdoor Learning, 10:2, 77-94
[10] Llywodraeth Cymru, Fframwaith NYTH (iechyd meddwl a lles): cyflwyniad
[11] Senedd Cymru, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Gwella Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc ('Cadernid Meddwl') (2018)
[12] Senedd Cymru, Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Bumed Senedd: Iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc ('Cadernid Meddwl') – Gwaith dilynol (2020)

Cymru wedi dyroddi canllawiau statudol i ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion ac awdurdodau lleol ar sefydlu dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol.[13] Mae gan y Senedd ddiddordeb a chyfrifoldeb craffu parhaus ar y maes polisi hwn, gan gynnwys yn fwyaf diweddar gan Senedd Ieuenctid Cymru[14] wrth i bryderon barhau am iechyd meddwl plant a'u mynediad amserol at wasanaethau[15], yn bennaf oherwydd effaith pandemig COVID-19.  Mae gan y Bil y potensial i gyfrannu'n sylweddol at fynd i'r afael â'r agenda hon. (Paragraffau 92 a 95 o'r Memorandwm Esboniadol)

Mae problemau iechyd meddwl yn cyfrif am £962 miliwn o gyfanswm gwariant GIG Cymru.[16]  Mae iechyd a llesiant meddwl ar draws addysg yn ganolog i Fframwaith Nerth, Ymddiried, Tyfu'n ddiogel a Hybu (NYTH) Llywodraeth Cymru.[17]

Mae cysylltiad cadarnhaol rhwng cysylltiad â byd natur drwy weithgareddau addysgiadol a chanlyniadau iechyd meddwl gwell[18] mewn plant a phobl ifanc yn eu harddegau.  Roedd y cysylltiadau mwyaf cyson a welwyd rhwng canlyniadau iechyd meddwl a dysgu mewn amgylcheddau naturiol yn ymwneud â gwydnwch, straen ac iechyd meddwl yn gyffredinol.[19] Cofnodwyd gwelliannau o ran llesiant emosiynol, hunan-barch ac iselder hefyd. Nodwyd bod cysylltiad â byd natur yn ffordd effeithiol o atal problemau iechyd meddwl cyffredin.

Mae dysgu mewn amgylcheddau naturiol wedi ei gysylltu[20] ag adeiladu cyfalaf cymdeithasol, meithrin balchder, ymdeimlad o berthyn, a chyfranogiad cymunedol. Mae profiadau sy'n rhoi cyfle i ymgolli ym myd natur[21], gan gynnwys profiadau awyr agored preswyl a mathau eraill o addysg y tu allan i'r ystafell ddosbarth, wedi eu cysylltu â gwell hunan-barch a mwy o hunaneffeithiolrwydd o gymharu â rheolyddion. Mae astudiaeth a oedd yn defnyddio data o Ddenmarc wedi dangos bod iechyd meddwl sy'n ffynnu yn gysylltiedig â thua $1.2 biliwn (sy'n cyfateb i £848 miliwn) yn llai o bosibl o gostau iechyd a chostau chymdeithasol.[22] (Paragraffau 222 a 224 o'r Memorandwm Esboniadol)

**Ymatebion i'r ymgynghoriad**

Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn adeiladu ar yr ymatebion a gafwyd drwy'r ymgynghoriad helaeth a gynhaliwyd ar amcanion polisi'r Bil.

---

13 Llywodraeth Cymru, Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol (2021)
14 Senedd Ieuenctid Cymru, Ein hiechyd meddwl a'n lles
15 Mae Comisiynydd Plant Cymru wedi gwneud iechyd meddwl plant a phobl ifanc ac yn mynd ar drywydd y 'Dim Drws Anghywir' model yn flaenoriaeth polisi ar gyfer 2023-26.
16 Cyllidebau rhaglenni gwariant y GIG: Ebrill 2021 i Fawrth 2022
17 NYTH (iechyd a llesiant meddwl): adroddiad cryno
18 Davis et al, 2021.
19 Tillman et al, 2018
20 Council for Learning Outside the Classroom, Evidence Note, 2022
21 Mygind et al, 2019
22 Santini et al, 2021

Tynnodd yr ymgynghoriadau a gynhaliwyd sylw at lawer o fanteision cyrsiau addysg awyr agored breswyl, megis y nodweddion personol y gellir eu caffael a'u datblygu, gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol a datblygiad personol cyfannol yn gyffredinol. Dywedodd plant mai bondio â ffrindiau a chael hwyl oedd rhai o'r prif fanteision, ac yna'r cyfle i gael profiad o fod oddi cartref, dysgu sgiliau newydd, dysgu am yr amgylchedd a byd natur, a bod yn yr awyr agored. (Paragraff 363 o'r Memorandwm Esboniadol).

Mae cymryd rhan mewn cwrs addysg awyr agored breswyl yn llesol i iechyd a llesiant meddyliol plant. Nodwyd yn benodol fod hyn yn brif fantais gan tua 40% o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad cyffredinol a chan tua 8% o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc. (Paragraff 368 o'r Memorandwm Esboniadol).

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Adroddiad Llywodraeth Cymru ar weithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith 2023-24** |
| **DYDDIAD** | **19 Chwefror 2024** |
| **GAN** | **Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad** |

Heddiw rwy'n falch o osod gerbron y Senedd y nawfed adroddiad blynyddol ar y graddau y mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith sy'n ymwneud â materion a ddatganolwyd i Gymru.

O dan adran 3C o Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965, fel y'i mewnosodwyd gan adran 25 o Ddeddf Cymru 2014, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru adrodd yn flynyddol ar y graddau y mae cynigion Comisiwn y Gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig wedi eu gweithredu.

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r cyfnod o 15 Chwefror 2023 i 14 Chwefror 2024. Mae'n rhoi diweddariad i'r Aelodau ar amryw o feysydd y mae cynigion Comisiwn y Gyfraith yn ymdrin â hwy, a gwybodaeth am brosiectau cyfredol Comisiwn y Gyfraith a'r rhai sydd i ddod.

Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad ar y cynnydd a wnaed yn ystod y deuddeg mis a aeth heibio ar amryw o faterion a fu'n destun argymhellion gan Gomisiwn y Gyfraith. Mae hyn yn cynnwys pasio Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, sy'n cynnwys darpariaeth i wahardd y defnydd o faglau ac atalyddion cebl yn llwyr, ac a oedd yn destun ystyriaeth ac argymhelliad yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar *Gyfraith Bywyd Gwyllt*. Rydym hefyd yn parhau i fwrw ymlaen â chynigion Comisiwn y Gyfraith ar wasanaethau tacsi a cherbydau hurio preifat, tribiwnlysoedd datganoledig a chyfraith cynllunio.

Mae'r diweddariad hwn a'r cynnydd a nodir yn dangos gwerth cynigion Comisiwn y Gyfraith i waith Llywodraeth Cymru.

Baroness Neville-Rolfe DBE CMG
Minister of State
Cabinet Office 70 Whitehall London
SW1A 2AS

Paul Davies MS
Chair, Economy, Trade and Rural Affairs Committee
Senedd Cymru

20 February 2024

Dear Chair,

**BORDER TARGET OPERATING MODEL**

Thank you for the invitation to attend the Economy, Trade and Rural Affairs Committee on Wednesday 7 February. I enjoyed speaking to you and your members, and continuing the spirit of cooperation that I believe has defined our work with the Welsh Government.

Thank you also for your letter of Tuesday 13 February. I agreed to write and I am happy to provide clarity on the points you raised.

**Landbridge Movements**

You and Samuel Kurtz MS asked if the UK Government would set up further easements on the biosecurity controls for landbridge movements via Welsh ports, whereby EU goods enter GB from Ireland and continue through to the European Union.

Through the Border Target Operating Model (BTOM), we are introducing a simplified and effective system of biosecurity controls to manage the risk of landbridge movements of these goods through Great Britain. In line with the BTOM, we have already introduced pre-notification and health certification for SPS goods and will introduce physical and ID checks. Our approach minimises friction at the border and the administrative burden to traders. We are taking a pragmatic approach and will only undertake checks where they are required to protect biosecurity. However I will continue to discuss further how we make trade flow as freely as possible whilst protecting human, plant and animal health with Ministerial colleagues. I note your concerns around the potential for trade diversion.

**UK Government Engagement with Welsh Organisations**

We ran a comprehensive programme of engagement following the draft publication of the BTOM in April 2023. There was a series of online and physical events to which all affected parties were invited. This included major trade bodies, including the British Chamber of Commerce and the Fresh Produce Consortium, who have a Welsh contingent in their membership. These organisations were included in our engagement leading up to the implementation of the January 31st BTOM milestone and will be included in engagement

ahead of the April 30th milestone. We have also supported the Welsh Government with materials and information on the co-designed model to support their own engagement with industry. We continue to support colleagues in the Welsh government on the construction of BCP facilities in south west Wales and Holyhead which includes working closely with port operators at these sites.

**Common User Charge**

We expect to publish the Government's response to the '[Charging arrangements at government-run border control posts]' public consultation in the coming weeks. This will confirm the final policy and rates.

**UK-EU Discussions**

I attended and opened the joint UK / EU Domestic Advisory Group (DAG) session at the start of January. This session focused on the BTOM including a session for stakeholders which was led by Directors from the Cabinet Office and Defra. This was a good opportunity for UK and EU trade associations to engage directly with the UK Government on their outstanding queries ahead of the BTOM implementation dates.

The UK Chief Veterinary Officer has engaged with counterparts across the EU in order to resolve issues such as ensuring availability of translated Export Health Certificates ahead of the first Border Target Operating Model milestone.

Officials are continuing to engage with top trading partners across the EU having already visited Belgium, the Netherlands, Denmark and Ireland. Further engagement is planned for Italy, Spain, Poland and Germany in 2024. Cabinet Office officials will also work with EU traders and stakeholders as part of our operational testing which will be starting in February.

**Indirect movements of QNIGs**

Thanks to the Windsor Framework, qualifying Northern Ireland goods will benefit from full unfettered access, regardless of whether they move directly or indirectly via Ireland. Legislation amending the definition of qualifying Northern Ireland goods was laid on 31 January alongside the publication of the *Safeguarding the Union* command paper—on which further guidance will be published shortly.

**UK-EU Discussions on Windsor Framework**

We engage regularly with the EU on the Windsor Framework arrangements. Under the Windsor Framework, we have established a number of joint UK-EU fora aimed at managing implementation as well as to consider proposed upcoming EU legislation. These include five new Joint Consultative Working Group structured sub-groups, as well as the new Special Goods Body.

Samuel Kurtz MS asked in particular about involvement of the Welsh Government at the Withdrawal Agreement Joint Committee. As I touched on, in line with the devolution settlement, the United Kingdom Government is responsible for international relations and attends the Joint Committee in that capacity. Ministers in the UK Government ensure that the Welsh Government, as well as the Scottish Government and the Northern Ireland Executive, are consulted as necessary in advance. The Review of Intergovernmental Relations established, among other groups, an Interministerial Group (IMG) on UK-EU TCA implementation that has been expanded to also cover Withdrawal Agreement

implementation and wider UK-EU relations. The IMG usually meets before each TCA Partnership Council and WA Joint Committee session to give ministers from the devolved administrations the opportunity to comment on and contribute to the agenda.

**Data Gathering**

Overall, industry have adapted successfully to post-Brexit regimes, including the introduction of full controls on GB exports to the EU in January 2021, the subsequent staged introduction of customs controls on EU imports to GB, and the introduction of Sanitary and Phytosanitary pre-notification and health certification requirements on EU imports to GB in January 2024. I acknowledge that businesses have had to work hard to adapt to new processes and that the Covid-19 pandemic and the war in Ukraine added supply chain pressures. However, we are not aware of any businesses that have ceased trading as a consequence of the BTOM.

Looking forward, the UK Government has made comprehensive plans to monitor the impact of the implementation of the BTOM. This includes monitoring Roll-on Roll-off freight volumes across all ports, customs declarations to understand changes to commodity imports, as well as the data on pre-notification and certification, which I mentioned. This is in addition to the monitoring of issues and resolutions regarding the BTOM implementation to ensure that emerging themes which would adversely affect trade flows are identified and mitigated.

Finally, I should also explain that since our conversation my colleague The Rt Hon Steve Baker MP has assumed responsibilities for the Windsor Framework within the Cabinet Office. He is now a joint Minister of State in both the Cabinet Office and at the Northern Ireland Office. I shall be working closely with him to ensure the BTOM and Windsor Framework are well aligned and we will continue working in lockstep to deliver a trading regime that works for the whole of the UK including Wales. I would be grateful if he could be included in our future correspondence as it relates to the Windsor Framework.

I am copying this letter to Rt Hon Steve Baker MP.

Warm regards

Lucy Neville-Rolfe

**Baroness Neville-Rolfe DBE CMG**

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Y Farwnes Neville-Rolfe DBE CMG
Gweinidog Gwladol yn Swyddfa'r Cabinet
Llywodraeth y DU

13 Chwefror 2024

Annwyl Farwnes Neville-Rolfe,

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 7 Chwefror i drafod Model Gweithredu Targed y Ffin a Fframwaith Windsor. Mae'r Pwyllgor yn croesawu eich awgrym i barhau â'r ddeialog â'r Pwyllgor wrth i Fodel Gweithredu Targed y Ffin gael ei gyflwyno drwy gydol 2024 a thu hwnt. Roedd yr Aelodau o'r farn bod y sesiwn yn ddefnyddiol iawn. Yn dilyn y sesiwn, roedd gan yr Aelodau ambell gwestiwn, a chytunais y byddwn yn ysgrifennu atoch i gael eglurhad. Byddwn yn falch pe gallech ymateb i'r canlynol:

- Croesawodd y Pwyllgor eich datganiadau eich bod yn awyddus i leihau anghymesuredd masnach ar hyn o bryd a bod Llywodraeth y DU wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Iwerddon ac awdurdodau Iwerddon i sicrhau cyn lleied o ffrithiant â phosibl ar gyfer porthladdoedd Cymru. Fel rhan o'r gwaith hwn, a yw Llywodraeth y DU wedi trafod gyda'r UE y posibilrwydd o leihau'r rhwystrau ymhellach ar symudiadau anuniongyrchol nwyddau cymwys Gogledd Iwerddon rhwng Cymru, Iwerddon a Gogledd Iwerddon?

- Gwnaethoch chi sôn yn ystod y sesiwn bod Llywodraeth y DU mewn cysylltiad â sefydliadau Prydain. A fyddech yn gallu rhoi gwybod a oes unrhyw un o'r sefydliadau hyn wedi'u lleoli yng Nghymru?

- Gwnaethoch chi ddweud y bydd cyhoeddiad yn cael ei wneud yn fuan ynglŷn â'r tâl cyffredin i ddefnyddwyr. A allech chi roi gwybod i'r Pwyllgor pryd y bydd hyn yn cael ei wneud?

- A allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y trafodaethau rhwng y DU a'r UE ar Fframwaith Windsor a Chymru?

- Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn dro ar ôl tro i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd Cyd-bwyllgor y DU-UE pan drafodir materion sydd â goblygiadau i borthladdoedd Cymru. A yw hwn yn fater y gellid ei adolygu yng ngoleuni'r datblygiadau a drafodwyd yn ystod y sesiwn?

- A allech chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn ysgrifenedig ar y sgyrsiau rhwng y DU a'r UE, gan gynnwys pum aelod-wladwriaeth yr UE, sef Ffrainc, Gwlad Belg, yr Iseldiroedd, Sbaen ac Iwerddon. Byddai gan y Pwyllgor ddiddordeb arbennig mewn sgyrsiau ag Iwerddon, o ystyried ein daearyddiaeth.

- Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r gweithgareddau a amlinellwyd gennych i gasglu data newydd, ond rydym yn pryderu efallai na fydd hyn yn casglu ystadegau ynghylch faint o fusnesau a allai fod wedi rhoi'r gorau i fasnachu trawsffiniol o ganlyniad i'r drefn ar ôl Brexit. A fyddech yn gallu darparu unrhyw ystadegau ar hynny?

Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir,



Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg



Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

21 Chwefror 2024

Annwyl Gadeirydd

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 26 Cymru ynghylch y Bartneriaeth rhwng y DU a Rwanda. Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i rannu barn Llywodraeth Cymru ynghylch y Cytuniad hwn a'r Bil Diogelwch Rwanda (Lloches a Mewnfudo) cysylltiedig.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Gweinidogion Cymru wedi datgan dro ar ôl tro – a dyma yw ein barn o hyd – nad yw cynigion i gadw'n gaeth a symud ymaith bawb sy'n cyrraedd drwy ddulliau afreolaidd yn ymarferol nac yn foesegol. Rydym wedi ei gwneud yn glir bod angen i system effeithiol gydymffurfio â Chonfensiwn Ffoaduriaid y Cenhedloedd Unedig a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae hefyd angen i system effeithiol gynnwys cytundebau dychwelyd effeithiol â gwledydd diogel lle y mae cysylltiadau yn bodoli, a llwybrau diogel a chyfreithlon digonol i'r DU.

Ers datblygu cynlluniau ar gyfer ymadael â'r UE, rydym wedi tynnu sylw Gweinidogion y DU at y sefyllfa yn sgil colli Rheoliad Dulyn III a chronfa ddata EURODAC. Roedd y systemau hyn yn galluogi'r DU i ddychwelyd unigolion i Aelod-wladwriaethau eraill lle'r oedd cysylltiadau yn bodoli. Mae masnachwyr a smyglwyr pobl yn gwybod na all y DU ddibynnu mwyach ar y cydweithio hwn ledled Ewrop sy'n gwneud y DU yn gyrchfan llawer mwy deniadol.

Er nad yw'r system fewnfudo wedi'i datganoli, cyhoeddodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip ddatganiad ysgrifenedig ym mis Cymru 2023 yn nodi ein barn ynghylch sut y gallai'r system weithio'n fwy effeithiol:
[Datganiad Ysgrifenedig: Llwybrau Diogel a Chyfreithiol i Geiswyr Lloches (31 Cymru 2023) | LLYW. Cymru]

Rydym wedi ystyried y Cytuniad rhwng y DU a Rwanda a'r Bil Diogelwch Rwanda (Lloches a Mewnfudo) ond rydym o'r farn bod cynnwys y ddau yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl. Nid ydym o'r farn bod angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol. Fodd bynnag, rydym yn

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

bryderus o hyd na all yr Ysgrifennydd Cartref ddatgan bod y Bil yn gydnaws â’r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac y dylai dyfarniad y Goruchaf Lys ei gwneud yn glir a yw Rwanda yn ddiogel ai peidio.

Roeddem yn rhwystredig bod ewyllys Senedd Cymru wedi’i hanwybyddu pan gafodd gydsyniad deddfwriaethol ei atal mewn perthynas â Deddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022 a Deddf Mudo Anghyfreithlon 2023. Ein barn ni o hyd yw bod gan y darpariaethau a amlygwyd gennym yn y Deddfau hynny bwrpas deuol sy’n effeithio ar gymhwysedd y Senedd. Yn yr achosion hynny, nid ydym o’r farn bod Confensiwn Sewel wedi’i ddilyn. Mewn perthynas â’r Bil Diogelwch Rwanda (Lloches a Mewnfudo) a’r cytundeb cysylltiedig, nid ydym o’r farn bod Confensiwn Sewel ar waith.

Gobeithiaf fod yr wybodaeth hon o gymorth i’r Pwyllgor wrth gynnal ei waith craffu.

Dymuniadau gorau



**MARK DRAKEFORD**

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

26 Ionawr 2024

Annwyl Mark,

Y DU/Rwanda: Cytundeb ar gyfer Darparu Partneriaeth Lloches i Gryfhau Ymrwymiadau Rhyngwladol a Rennir i Ddiogelu Ffoaduriaid a Mudwyr

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn gyfrifol am fonitro'r broses o weithredu cytundebau rhyngwladol nad ydynt yn gytundebau masnachol yn ystod y Chweched Senedd.

Yn ein cyfarfod ar 8 Ionawr 2024, gwnaethom drafod Cytundeb rhwng y DU a Rwanda ar gyfer Darparu Partneriaeth Lloches i Gryfhau Ymrwymiadau Rhyngwladol a Rennir i Ddiogelu Ffoaduriaid a Mudwyr. Mae'r cytundeb hwn yn darparu ar gyfer creu, cynnal a gorfodi partneriaeth rhwng y DU a Rwanda i ymdrin ag unigolion sydd wedi'u hadleoli o'r Deyrnas Unedig i Rwanda, gan gynnwys ystyried ceisiadau am statws fel ffoadur a phenderfynu ar y ceisiadau hyn.

Fel y nodwyd yn ein hadroddiad, a osodwyd ar 16 Ionawr 2024, mae'r Memorandwm Esboniadol yn manylu ar y ddeddfwriaeth ddomestig a fydd yn cael ei defnyddio i roi effaith gyfreithiol i'r cytundeb yn y DU, gan gynnwys *Deddf Ymfudo Anghyfreithlon 2023*, y gwrthododd y Senedd roi cydsyniad iddi ym mis Mehefin 2023. Roedd y Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi bwriad Prif Weinidog y DU i gyflwyno deddfwriaeth newydd i gadarnhau diogelwch Rwanda fel trydedd wlad. Yn sgil hynny, cafodd y *Bil Diogelwch Rwanda (Lloches a Mewnfudo)* ei gyflwyno yn Senedd y DU ar 7 Rhagfyr 2023.

Mae'r cytundeb yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl, sef mewnfudo a lloches, sydd y tu hwnt i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Er efallai na fydd unrhyw oblygiadau uniongyrchol i Lywodraeth Cymru yn deillio o'r cytundeb hwn, rydym yn deall y gallai'r cytundeb, yn ogystal â'r *Bil Diogelwch Rwanda (Lloches a Mewnfudo)*, fod â goblygiadau i unigolion sy'n byw yng Nghymru ac sydd wedyn yn cael eu hadleoli i Rwanda.

Gyda hynny mewn golwg, byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu'r wybodaeth a ganlyn:

- mwy o wybodaeth am eich safbwynt ar y cytundeb a'r *Bil Diogelwch Rwanda (Lloches a Mewnfudo)*;
- eich barn ar faterion sy'n gysylltiedig â meysydd penodol o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwn; er enghraifft, rhwymedigaethau rhyngwladol, gan gynnwys y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE;
- eich barn ar rwymedigaethau rhyngwladol a Chonfensiwn Sewel mewn perthynas â'r cytundeb hwn, y *Bil Diogelwch Rwanda (Lloches a Mewnfudo)* a'r *Ddeddf Ymfudo Anghyfreithlon 2023*, y gwrthododd y Senedd roi cydsyniad iddi ym mis Mehefin 2023.

Yn gywir,



Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon